Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

**Beth fydd yn disodli cyllid yr UE yn dilyn Brexit? – Ymchwiliad newydd gan un o bwyllgorau'r Cynulliad**

**Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad fel a ganlyn:**

- Asesu'r gwaith cynllunio ariannol ar gyfer disodli ffrydiau ariannu'r UE yng Nghymru, a'r hyn sy'n cael ei wneud i baratoi ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd posibl o ran lefelau cyllid a chyfrifoldeb gweinyddol; ac,

- Archwilio pa ddulliau o weinyddu'r hyn a fydd yn disodli ffrydiau ariannu'r UE a allai ddarparu'r gorau i Gymru, ac i ba raddau y gallai'r rhain ail-greu neu fod yn wahanol i'r trefniadau presennol.

**Tystiolaeth gan Gofal Cymdeithasol Cymru**

**Cyswllt:**

Joanne Oak
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Strategaeth
Gofal Cymdeithasol Cymru
Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

1. **Cyflwyniad i Gofal Cymdeithasol Cymru**

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i amddiffyn, hyrwyddo a chynnal diogelwch a llesiant y cyhoedd yng Nghymru.

Ein nodau yw:

- Gwella hyder y cyhoedd yn y gweithlu gofal cymdeithasol
- Arwain a chefnogi gwelliannau mewn gofal cymdeithasol
- Datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar

Fel rhan o'n nod o ddatblygu'r gweithlu, mae ein strategaeth pum mlynedd yn ein hymrwymo ni i wella ansawdd a rheolaeth hyfforddiant gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol trwy ddylanwadu, buddsoddi a datblygu rhaglenni hyfforddi a datblygu cenedlaethol. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn falch o gael cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Rydym yn cydnabod ein bod wedi manteisio ar ystod eang o ffrydiau cyllido'r UE, gan gynnwys rhaglenni cyfalaf, polisïau amaethyddol, polisïau morol a physgota, ac nid ydym yn gwneud unrhyw sylwadau

ar yr agweddau hyn. Mae ein tystiolaeth yn canolbwyntio ar gyllid yn ymwneud â Chronfeydd Strwythurol Ewropeaidd mewn perthynas â chyflogaeth, addysg, dysgu a datblygu busnes.

2. **Demograffeg Cymru a'r sector:**

Yn ddiweddar, nodwyd bod gofal cymdeithasol a gofal plant yn sectorau blaenoriaeth ar gyfer cyflogadwyedd ac yn y strategaeth economaidd ***Ffyniant i Bawb***. Dylid nodi bod y sector hwn yn dal i fod yn gyflogwr mawr yng Nghymru, gyda 56,500 o weithwyr mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol a gomisiynir (gan gynnwys y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol/y trydydd sector) ar draws 1,414 o wasanaethau. BBaChau yw'r busnesau yn bennaf, gyda dim ond 7% yn cyflogi mwy na 100 o staff. Mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu darparu'n bennaf trwy bwrs y wlad, naill ai'n uniongyrchol neu drwy wasanaethau a gomisiynir gan yr awdurdodau lleol o'r sectorau preifat a gwirfoddol. Yn 2016-17, roedd tua 1,400 o wasanaethau gofal cymdeithasol a gomisiynir yn cyflogi tua 50,500 o staff yng Nghymru[1]. O'r rhain, mae 22% yn y sector gwirfoddol a 78% yn y sector preifat. Yn ogystal, ym mis Mawrth 2017, roedd 21,840 o staff yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan wasanaethau cymdeithasol mewn awdurdodau lleol[2]. Mae hyn yn awgrymu cynnydd o 3.4% o'r gweithlu ers 2014.

Rhybuddiodd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Wasanaeth Cyhoeddus a Newid Demograffig ym mis Mawrth 2013 nad oedd y DU yn barod o bell ffordd ar gyfer yr heriau cymdeithasol ac economaidd a gyflwynir gan gymdeithas sy'n heneiddio ac y byddai angen model gofal gwahanol iawn. Mae hyn yn cynnwys cynnydd yn y gofal cymunedol i geisio cadw pobl yn eu cymunedau a'u cartrefi eu hunain cyhyd â phosibl, cynnydd yn y defnydd o daliadau uniongyrchol a chynnydd mewn cyflyrau a chanlyniadau oedran sy'n cynyddu anghenion cymorth a gofal cymdeithasol, gan gynnwys dementia, anabledd ac eiddilwch corfforol a nam ar y synhwyrau. Yng Nghymru, mae'r newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y ddeddfwriaeth newydd, sef Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhwng 2015 a 2035, rhagfynegir y bydd cynnydd o 72% yn nifer y bobl dros 65 oed sydd â dementia[3]. Rhagfynegir y bydd nifer y bobl hŷn (y rhai sy'n 65 oed a hŷn) sydd angen gwasanaethau gofal preswyl yn cynyddu 82% rhwng 2015 a 2035, a'r niferoedd sy'n derbyn gwasanaethau cymunedol yn cynyddu 67% pan ddefnyddir ffigurau poblogaeth 2015 i ragweld twf poblogaeth mewn pobl hŷn[4].

Mae AGC yn amcangyfrif bod tua 112,234 o bobl yn defnyddio gwasanaethau a reoleiddir ym mis Mawrth 2017 ar draws gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar[5], sef cynnydd o 3.7% mewn blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys tua 6,133 o leoliadau a reoleiddir yn y sector,

[1] Data Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol 2016-17: Uned Ddata Llywodraeth Leol 2017
[2] https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Staffing/staffoflocalauthoritysocialservicesdepartments-by-localauthority-posttitle
[3] ibid
[4] http://www.daffodilcymru.org.uk/
[5] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Services-for-Social-Care-and-Childrens-Day-Care/cssiwservicesandplaces-by-servicetype

sef gostyngiad bach o 0.8% ers 2016[6]. Nid yw hyn yn cynnwys lleoliadau gofal teulu, anffurfiol neu gymunedol nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan reoliad. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal yng Nghymru'n cael eu comisiynu gan y sector cyhoeddus a thrwy gyllid sector cyhoeddus i amrywiaeth o ddarparwyr yn y sector statudol, y sector annibynnol a'r trydydd sector.

Nid yw'r ffigurau hyn yn ystyried gwasanaethau eraill nad ydynt yn cael eu rheoleiddio sy'n darparu gofal dydd neu wasanaethau cymunedol eraill; mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu datblygu a'u hannog o ganlyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae data pellach sylweddol ar gael os bydd angen.

Yn olaf o ran cyd-destun, mae'r cysylltiadau rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd wedi'u cydnabod trwy ddeddfwriaeth newydd Cymru a'r effaith mae diffyg cyllid a mynediad gwael at ofal cymdeithasol yn ei chael ar y GIG, gan arwain at oedi o ran pobl yn dychwelyd i'w cartrefi yn dilyn arosiadau acíwt yn yr ysbyty. Mae'r gwaith o integreiddio'r agenda a'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei sbarduno gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chreu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (2016), cynlluniau ar gyfer Canolfannau Iechyd a Gofal integredig newydd ar draws Cymru (2017) a'r Gronfa Gofal Integredig (2018).

## 3. Sylwadau Cyffredinol ar Gylch Gorchwyl yr Ymchwiliad

Cyflwynodd Gofal Cymdeithasol Cymru ymateb i'r ymgynghoriad diweddar ***Buddsoddiad Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit***. Credwn fod yr ymagwedd gyffredinol a amlinellir yn y ddogfen honno yn synhwyrol a phragmatig. Mae llawer o weithgareddau datblygu'r gweithlu yn ein sector wedi dibynnu ar ffrydiau cyllido Ewropeaidd, gyda rhai ohonynt yn (brentisiaethau) cenedlaethol ac eraill yn rhanbarthol megis y prosiect Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Gweithwyr (SEE) yn y Gogledd a Sgiliau ar gyfer Diwydiant yn y De-orllewin. Bydd y ddibyniaeth hon yn parhau, ac yn cynyddu yn dilyn penderfyniad y llywodraeth i ymestyn y rheoliad trwy gofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol o 2018-2022.

Mae'r defnydd o raglenni cenedlaethol wedi bod yn dda yn ein sector (mae bron i draean o'r holl brentisiaethau yn ein sector), ond mae'r rhaglenni rhanbarthol wedi'u defnyddio llai. Felly, rydym yn awgrymu y dylid gwneud y canlynol o ran asesu cynlluniau ariannol:

- Sefydlu blaenoriaeth ar gyfer dadansoddiad clir o'r defnydd a chanlyniadau gwahanol ffrydiau cyllido presennol.
- Dysgu gwersi yn ymwneud â marchnata, targedu, allbynnau a chanlyniadau i gynyddu'r defnydd o unrhyw gyllid, yn enwedig os bydd y prif fuddsoddiad yn y dyfodol yn rhanbarthol.
- Dylai'r buddsoddiad sy'n ofynnol gan gyflogwyr i gael mynediad at gyllid mewn perthynas ag addysg a sgiliau ac, yn benodol, yr effaith mae hyn yn ei chael ar

[6] http://careinspectorate.wales/docs/cssiw/report/171102annualreporten.pdf

sectorau, gael ei ariannu gan y sector statudol yn bennaf. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae'r sectorau hyn yn flaenoriaethau yn rhannau Economi Sylfaenol a Chyflogadwyedd o'r economi.

Rydym yn croesawu ac yn cytuno â'r egwyddorion a amlinellir yn yr ymagwedd ranbarthol. Yn arbennig, byddem yn cefnogi'r canlynol:

- Rôl fwy arwyddocaol i bartneriaethau rhanbarthol cynhwysol o ran cynllunio a gwneud penderfyniadau, a hwylusir trwy alinio adnoddau.
- Cymysgu dulliau buddsoddi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol cyflenwol sy'n seiliedig ar ranbarthau economaidd swyddogaethol.
- Integreiddio gwahanol feysydd polisi sy'n canolbwyntio ar bobl a lleoedd, gan uno gwahanol ffynonellau cyllido a modelau cyllido.

**4. Archwilio pa ddulliau o weinyddu'r hyn a fydd yn disodli ffrydiau ariannu'r UE a allai ddarparu'r gorau i Gymru, ac i ba raddau y gallai'r rhain ail-greu neu fod yn wahanol i'r trefniadau presennol.**

Mewn rhai Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, rydym wedi dod ar draws heriau gydag ymgysylltu ar ran ein sector. Mae'n gallu bod yn anoddach dadlau am flaenoriaeth neu adnoddau oherwydd strwythurau cyfyngol cynrychiolaeth cyflogwyr a ddefnyddir a'r ffaith bod pwyslais yn cael ei roi ar gyfalaf a mewnfuddsoddiad a chyfraniadau gwerth ychwanegol gros uchel[7]. Mae'n ymddangos bod hyn yn cael blaenoriaeth dros y pwyslais a roddir ar iechyd, gofal cymdeithasol, gofal plant a'r blynyddoedd cynnar trwy ddogfennau polisi megis **Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, ***Ffyniant i Bawb* –** cyflogadwyedd a'r economi sylfaenol. Mewn RLSPs eraill, mae strwythurau ar waith sy'n galluogi mwy o ymgysylltu a dylanwad i'r sector.

- Byddem yn gofyn am i bob system newydd ddelio â chyllid yn dilyn Brexit ddefnyddio'r ymagwedd fwy cynhwysol hon. Mae hyn yn dod yn fwyfwy hanfodol wrth i gyfrifoldebau Bwrdd Prentisiaethau Cymru (a'r cysylltiadau â Phartneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol) ddod i'r amlwg, gan sicrhau cymeradwyaeth a chyllid dilynol wrth gwrs.

Bydd buddsoddiad parhaus gan y llywodraeth yn natblygiad gweithlu ein sector yn allweddol er mwyn rhoi ***Ffyniant i Bawb*** ar waith yn llwyddiannus, ynghyd â goblygiadau gwella'r gwasanaeth a'r gweithlu sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ***Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru*** a'r broses o ymestyn y gwaith o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol trwy ***Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.*** Bydd hi'n bwysig helpu'r llywodraeth hefyd i gyflawni ei thargedau prentisiaeth a amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu ***Symud Cymru Ymlaen 2016-21.***

[7] Mae Sgiliau Gofal a Datblygu newydd gwblhau ymchwil sy'n edrych ar y cyfraniadau gwerth ychwanegol gros fesul sector ym mhob un o'r gwledydd cartref. Cyhoeddir yr ymchwil hon ym mis Mai 2018.

Bydd hi'n bwysig i brosesau a mecanweithiau cyllido newydd ystyried anghenion ardaloedd ac amcanion cenedlaethol, ynghyd â rhanbarthau. Er mwyn cyflawni rhai o uchelgeisiau'r llywodraeth o ran creu mentrau cymdeithasol a gwella capasiti ac asedau cymunedol i gefnogi llesiant, efallai na fydd cyllid rhanbarthol yn gallu cyflawni hyn ar ei ben ei hun. Felly, efallai y bydd angen ystyried cyfraniad mwy lleol a bydd cyfraniadau cenedlaethol e.e. trwy gyllid prentisiaethau, yn dal i fod yn bwysig.

Mae cyflogwyr yn ein sector wedi ei chael hi'n anodd cynnal eu hymrwymiad i brentisiaethau yn dilyn cyflwyniad system asesu WEST a gofynion newydd y Cymhwyster Sgiliau Hanfodol, gan eu bod nhw angen cymaint o fuddsoddiad amser i ffwrdd o'r gweithle. Mae cyflogwyr a dysgwyr yn ansicr ynglŷn â'r ffaith nad yw'r system asesu'n adlewyrchu anghenion y cymwysterau a bod angen i'r asesiad ar gyfer dysgu ac asesu gael ei gynnal ddwywaith. Er ein bod yn gwbl gefnogol o'r angen am weithlu llythrennog a rhifog ac, erbyn hyn, gweithlu sy'n llythrennog yn ddigidol, mae'n bwysig dod o hyd i ffordd o gyflawni hyn yn fwy effeithiol ac esmwyth, gyda llai o amser i ffwrdd o'r gweithle.

- O'n gwaith ymgysylltu â chyflogwyr a darparwyr dysgu, mae WEST wedi creu rhwystrau i ddysgu, a dylai ei effeithiolrwydd a'i ganlyniadau anfwriadol gael eu profi a materion gael eu trafod.
- Rydym yn cefnogi'r angen am fethodoleg asesu cadarn yn y meysydd hyn, ond mae'r gofynion presennol yn peri i lawer dynnu'n ôl yn ein sector. Yn ddiweddar (Tachwedd 2017), dywedodd un darparwr dysgu mawr bod 40% wedi tynnu'n ôl o gymharu â chyfraddau blaenorol o 12%, i gyd yn ymwneud â gofynion WEST a Sgiliau Hanfodol.
- Mae cynlluniau Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle blaenorol wedi bod yn fwy poblogaidd gyda chyflogwyr yn y sector ac wedi'u defnyddio'n eang gan gyflogwyr a dysgwyr yn y sector. Hoffem i'r cynlluniau hyn gael eu hadfer neu eu hailystyried.

Credwn y bydd hi'n bwysig gosod cyfeiriad cyffredinol trwy flaenoriaethau a fydd yn cyfrannu at ddatblygu economi Cymru a'r gymdeithas sifil sy'n ffurfio egwyddorion **Ffyniant i Bawb** a **Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Mae pwysigrwydd gweithio ar draws adrannau'r llywodraeth yn glir, a byddem yn gobeithio gweld gweithgareddau rhyngadrannol yn parhau i sicrhau bod modd i flaenoriaethau a mentrau e.e. gydag Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gael eu cefnogi gan y polisi ac ymarfer ym maes Addysg a Sgiliau, y Gymraeg, Pobl a Chymunedau ac ati.

- Mae'r Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau RPS blynyddol yn ffordd dda o lywio adolygiad o flaenoriaethau cenedlaethol ond, er mwyn i hyn fod yn gwbl effeithiol, byddai angen i'r strwythurau mwy cynhwysol gyda dealltwriaeth a dadansoddiad eang y tu hwnt i economeg (a ddisgrifir uchod) gael eu mabwysiadu gan bob RSP.

Dylai fod modd cael mynediad rhwydd i unrhyw gyllid newydd, gyda chyn lleied o fiwrocratiaeth â phosibl. Mae enghraifft o'r angen i sicrhau mynediad hwylus yn dod o brofiad

negyddol ein sector o raglen yr UE, Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, o 2015-17. Roedd y syniad y tu ôl i'r prosiect i ymateb i'r cyfyngiadau oedran ar gyfer prentisiaethau yn 2014 yn un da. Fodd bynnag, roedd yr amser a'r ymdrech sy'n angenrheidiol i gael cymeradwyaeth ar gyfer y prosiect (18 mis); y penderfyniad i ail-gaffael darparwyr yn hytrach na defnyddio'r darparwyr dysgu seiliedig ar waith presennol; y gwaith o ddewis darparwyr heb lawer o brofiad o addysg blynyddoedd cynnar; yr amserlenni byr ar gyfer cwblhau'r fframweithiau ac ymateb cyflogwyr i beidio â defnyddio'r darparwyr hynny wedi arwain at gyfraddau defnydd isel ar gyfer y prosiect. Yn ogystal, un canlyniad anfwriadol oedd gostyngiad o 27% yn nifer y bobl sy'n dilyn prentisiaethau o'r prif gyllid prentisiaethau yn y rhan hon o'r sector.

Fel y nodir uchod, byddem yn cefnogi ystyriaeth a chymeradwyaeth ar gyfer cyllid mewn ffordd amserol. Credwn fod angen bod yn greadigol ac arloesol yn yr hyn a ariennir a sut y bydd yn cael ei ariannu – er enghraifft, mae cyllid ar gyfer cymwysterau cychwynnol yn angenrheidiol, ynghyd â chyllid datblygu ar gyfer gwobrau/meysydd DPP. Wrth i ni fynd ati i helpu'r llywodraeth i reoleiddio'r gweithlu a chyflawni'r weledigaeth yn **Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2016**, **Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017**, mae hyn yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i ni barhau i ddatblygu ein gweithlu yn hytrach nag aros ar y safonau gofynnol. Mae angen i ganran o gyllid fod ar gael i gefnogi'r ychwanegiad "ôl-gymhwysol" hwn i sectorau.